Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Ceir manylion llawn ynghylch yr amodau sy'n gysylltiedig â phob grant yn y ffurflenni cais, ynghyd â'r rheswm dros gymeradwyo'r grant mewn o ran sut y bydd o fudd i'n cymunedau. Mae pob derbynnydd yn llwyr ymwybodol o unrhyw amodau sydd angen eu bodloni.

GRANTIAU 2019/2020

CYFANSWM YR ARIAN A RODDWYD = £127,554.00

Ceisiadau llwyddiannus:

**PROSIECT CYMORTH GOROESWYR I FERCHED**
**Sir:** Sir Gaerfyrddin
**Diwrnod Rhyngwladol y Merched £1000.00**

Grŵp cymorth cymheiriaid ar gyfer merched sydd wedi goroesi cam-drin domestig. Elusen sy'n gweithio'n agos iawn â nifer o wasanaethau perthnasol, sy'n edrych ar gynnal digwyddiad yn nhref Caerfyrddin ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched ym mis Mawrth 2020.

**CLWB IEUENCTID SAUNDERSFOOT**
**Sir:** Sir Benfro
**Clwb Ieuenctid Saundersfoot £1560.00**

Prosiect ieuenctid cymunedol lleol a gynhaliwyd yn Neuadd y Rhaglywiaeth, Saundersfoot, ar gyfer plant 11-16 oed o'r pentref a'r dalgylch (sy'n cynnwys tua 8 pentref cyfagos). Bwriedir darparu mwy nag un sesiwn gemau wythnosol yn unig i'w cadw oddi ar y strydoedd.

**DYFODOL POWYS**
**Sir:** Powys
**Estyn Allan £9732.00**

Helpu i adeiladu dyfodol cadarnhaol gyda dynion ifainc 16-25 oed sy'n agored i niwed, lle mae ffynonellau cymorth eraill wedi methu. Maen nhw wedi cyrraedd pwynt hanfodol yn eu bywydau, wrth iddynt ddod yn oedolion.

**RHWYFWYR LLANDYSUL**
**Sir:** Ceredigion
**Rhaglen Ieuenctid Teifi £5500.00**

Mae'r prosiect yn ceisio adeiladu ar yr ewyllys da ac ysbryd cymunedol a oedd mor amlwg yn dilyn y dinistr a achoswyd gan Storm Callum. Bwriedir defnyddio'r arian i helpu i ddatblygu menter a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelu treftadaeth naturiol dyffryn Teifi, a chreu cyfleoedd am ddatblygiad personol ar gyfer pobl ifainc lleol.

**GALERI VC**
**Sir:** Sir Benfro
**Llais Glan yr Afon - gweithio ar lawr gwlad gyda'r gymuned er mwyn cael llais cadarnhaol £9850.00**

Cymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau llawr gwlad dros gyfnod o flwyddyn er mwyn grymuso pobl o dan 25 oed, gyda'r nod o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn ardal Hwlffordd mewn ymagwedd dargedig tuag at waith ieuenctid datgysylltiedig gyda phartneriaid allweddol sydd wedi'u hyfforddi.

**BUGEILIAID STRYD Y DRENEWYDD**
**Sir:** Powys
**Bugeiliaid Stryd y Drenewydd £500.00**

Lansiwyd Bugeiliaid Stryd yn 2009 gan oedolion Cristnogol sy'n patrolio'r strydoedd yn wirfoddol ar nosweithiau Sadwrn er mwyn helpu pobl ifainc sy'n agored i niwed i aros yn ddiogel yn ystod eu noson allan.

**STOP IT NOW! CYMRU**
**Siroedd:** Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys
**£500.00**

Rhaglen i gefnogi teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan ymddygiad rhywiol niweidiol ar-lein, lleihau'r perygl o ymddygiad troseddol yn y dyfodol, a chadw plant yn ddiogel.

**AWDURDOD PORTHLADD ABERDAUGLEDDAU**
**Sir:** Sir Benfro
**Dan y Bont 2019 £5215.00**

Prosiect sy'n anelu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella diogelwch cymunedol/cyhoeddus, herio canfyddiadau negyddol a chynnig gweithgareddau sy'n denu eu sylw i bobl ifainc 11-18 oed mewn amgylchedd diogel.

**FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFAINC CYMRU**
**Sir:** Powys
**Beth yw'r Crac £9000.00**

Mae'r prosiect yn anelu i godi ymwybyddiaeth o'r bygythiad difrifol sy'n wynebu cymunedau, a sut y gall pobl ifainc gydweithio i warchod eu hunain a'u ffrindiau rhag cyffuriau anghyfreithlon.

**CYMDEITHAS GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR BENFRO**
**Sir:** Sir Benfro
**Cysylltu Cenedlaethau £2000.00**

Mae Cysylltwyr Cymunedol yn gwella cysylltiadau ar gyfer pobl yn Sir Benfro. Gall cysylltwyr helpu pobl i gymryd camau cadarnhaol tuag at wella eu hiechyd a'u lles, cynyddu rhyngweithio cymdeithasol, a helpu pobl i fyw'n annibynnol a diogel yn eu cymunedau. Bydd y prosiect yn manteisio ar wybodaeth chwe Chysylltydd Cymunedol a'u cysylltiadau a'u partneriaethau mewn cymunedau.

**FFORWM LLWYNHENDY A PEMBERTON**
**Sir:** Sir Gaerfyrddin
**Llwynhendy: Buddsoddi mewn dyfodol hwyliog, gwyrdd a chydlynol £500.00**
Mae 3 elfen i'r prosiect: Gweithgareddau hwyliog i blant a chymorth teuluol targedig, Diwrnod Hwyl ar gyfer teuluoedd, a phrosiect tyfu cymunedol. Bydd pob un o'r rhain yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau, adeiladu gwydnwch ar gyfer y rhai sydd mewn angen, cynyddu cyfleoedd, ac adeiladu hunanwerth a balchder cymunedol.

**GWASANAETH CYFFURIAU AC ALCOHOL TROTHWY CYF**
**Sir:** Sir Gaerfyrddin
**Prosiect Ymyriadau Teuluol Cynnar - Rhaglen Droseddwyr Dewisiadau £10000.00**

Cynigir cymorth i ddynion sy'n droseddwyr ar raglen Prosiect Ymyriadau Teuluol Cynnar Dewisiadau. Mae'r rhaglen yn un sydd wedi'i theilwra, ac fe'i hysgrifennwyd ar gyfer Trothwy gan ddau arbenigwr sydd â dros 15 mlynedd o brofiad yr un o weithio gyda throseddwyr.

**GWASANAETH CAM-DRIN DOMESTIG GORLLEWIN CYMRU**
**Sir:** Ceredigion
**Diogelwch a Chymorth ar gyfer Dioddefwyr Cam-drin Domestig yng Ngheredigion £9781.00**

Mae'r prosiect yn darparu llwybrau cymorth camu i lawr a chamu i fyny ar gyfer menywod, dynion a phlant sy'n dianc rhag effeithiau cam-drin domestig, neu'n byw gyda hyn.

**HAFREN, Y GANOLFAN ADLONIANT**
**Sir:** Powys
**Hafren, Prosiect Ymyrraeth Ieuenctid Creadigol £10000.00**

Bydd y prosiect yn cynnwys cydweithio â Gwasanaeth Ieuenctid Powys drwy'r clybiau ieuenctid. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn y Drenewydd a'r Trallwng ac yn denu plant o'r ardal gyfagos ehangach.

**HAFAN CYMRU**
**Siroedd:** Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys
**Prosiect Cwnsela Seren £9916.00**

Cynigir cwnsela i oedolion sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol adeg plentyndod. Does dim prosiect arbenigol arall o'r math hwn ar gael yng ngorllewin Cymru. Gofynnwyd i Hafan Cymru redeg y prosiect gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Seren, ac fe'i trosglwyddwyd i Hafan Cymru ar 1 Ebrill 2019.

**CWMNI THEATR ARAD GOCH**
**Sir:**
**Hudo 2019 £10000.00**

Ail gam ein cynllun dwy flynedd i godi ymwybyddiaeth o gam-drin rhywiol a chamfanteisio rhywiol ymysg pobl ifainc yn eu harddegau.

**PROSIECT IEUENCTID ABERTEIFI - ARDAL 43**
**Sir:** Ceredigion
**Cysylltiadau Cadarn £8000.00**

Rhoddir cyfle i grwpiau o bobl ifainc amrywiol ein cymuned gael eu clywed, ac fe'u galluogir i gefnogi eu cyfoedion i wneud yr un peth drwy dechnoleg sain, cynhyrchu cerddoriaeth a chynhyrchu'r cyfryngau.

**PARTNERIAETH DIOGELWCH DŴR SIR GAERFYRDDIN**
**Sir:** Sir Gaerfyrddin
**Cerbyd Diogelwch Dŵr/Atal Boddi £5000.00**

Cyflwynir taflenni diogelwch dŵr i bob ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin cyn gwyliau haf 2019, mewn partneriaeth â thimoedd plismona bro. Yn ogystal, cyflwynir cerbyd diogelwch dŵr wedi'i deilwra a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch hyrwyddo, gan godi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau, diwrnodau agored, ac mewn ysgolion.

**Dr Mz**
**Sir:** Sir Gaerfyrddin
**Ymgysylltu â Phobl Ifainc £10000.00**

Cynigir man diogel i bobl ifainc gwrdd a rhyngweithio gyda gwirfoddolwyr a staff cymwys a chael cymorth a gwybodaeth ynghylch unrhyw broblemau sydd ganddynt. Rydyn ni'n cynnig gweithgareddau a fydd yn denu pobl ifainc o'r dref a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Bydd y gweithgareddau hyn yn helpu pobl ifainc i ddod yn fwy hunangynhaliol ac yn adeiladu eu hyder a'u hunan-barch. Rydyn ni'n anelu i roi dewis amgen iddynt yn lle gweithgareddau negyddol sy'n digwydd oherwydd diflastod a diffyg ymdeimlad o berthyn.